# Tyfu ar gyfer twf

**E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Gaeaf 2023.**

Croeso i'n E-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd nawr?



**Galwad agored i arddwyr Cymru ar gyfer Pentref Garddwriaethol Sioe Frenhinol Cymru 2024**
Mae'r Adran Arddwriaeth ar ei newydd wedd ar gyfer 2024 yn datblygu. Rhannwyd dyluniad wedi'i ddiweddaru â rhanddeiliaid ym mis Tachwedd, gyda lleoliad newydd wedi'i leoli ger prif fynedfa'r safle a'r man aros ar gyfer bysiau. Mae arolwg byr ar-lein wedi'i ryddhau i gasglu datganiadau o ddiddordeb gan dyfwyr Cymru a'r gadwyn gyflenwi arddwriaethol sydd am gymryd rhan, neu gael stondin neu arddangosfa ryngweithiol, gweler yma
Mae'r sefydliadau canlynol eisoes yn cymryd rhan:



**'Hau'r hadau: Sector garddwriaethol yn Lloegr sy'n blodeuo'**
Cyhoeddodd Pwyllgor Sector Garddwriaeth Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar 6 Tachwedd. Er bod yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar Loegr, mae llawer o'r canlyniadau'n cyd-fynd â holl ddiwydiant Garddwriaeth y DU, sy'n cyfrannu dros £5 biliwn bob blwyddyn ac yn cyflogi dros 50,000 o bobl. Mae'r sector yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth, cipio carbon naturiol, lleihau milltiroedd bwyd a dibyniaeth ar fewnforion. Fodd bynnag, mae'r heriau hirsefydlog y mae'r DU wedi'u hwynebu yn cynnwys 'amgylchedd masnachu anghyson a dryslyd' a ddaeth yn sgil Gadael yr UE, y pandemig COVID-19 a'r gwrthdaro yn Wcráin, chwyddiant, yr argyfwng costau byw, ac argyfwng hirdymor bwlch sgiliau ac addysg. Ar hyn o bryd rydym yn creu adroddiad ar gyfer Garddwriaeth Cymru, a fydd ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio pan gaiff ei gyhoeddi.

## Y wybodaeth ddiweddaraf



**Proffil ymgynghorydd newydd: Nathan Richards**
Mae Nathan yn dyfwr organig sefydledig ac uchel ei barch, wedi'i leoli yng Nghymru. Mae ganddo brofiad helaeth mewn cynhyrchu deunydd garddwriaeth, gan gynnwys dros 17 mlynedd yn gweithio fel tyfwr organig yn y DU. Nathan a'i wraig, Alicia Miller, yw perchnogion Troed y Rhiw Organics, fferm organig wedi'i ardystio gan Gymdeithas y Pridd yn Llwyndafydd, Cymru. Mae'r busnes wedi ymrwymo i ffermio'n gynaliadwy, gyda dull cyfannol fferm gyfan at gynhyrchu bwyd, gan gwmpasu popeth o'r pridd, i ran y fferm yn y gymuned leol. Mae eu fferm gymysg yn cynhyrchu ystod eang o lysiau, perlysiau, ffrwythau meddal, a blodau, yn bennaf yn cael eu casglu a'u gwerthu ar yr un diwrnod trwy gynllun bocsys lleol, a marchnadoedd lleol, bwytai, a siopau bwyd iach.
Gallwch gael hyd at 12 awr o gymorth busnes garddwriaeth gan arbenigwyr fel Nathan, trwy Raglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio.



**Tudalen Facebook Rhwydwaith Tyfwyr Cymru**
Mae gennym grŵp caeedig newydd ar Facebook ar gyfer Rhaglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio: mae 'Rhwydwaith Tyfwyr Cymru' yn lle i dyfwyr sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio glywed

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

am ddigwyddiadau ac ymweliadau astudio, yn ogystal â chynnig lle i rwydweithiau 'Ein tyfwyr' rannu'r hyn a ddysgwyd a phrofiadau rhwng cyfoedion. Gweler yma .

**Gweithdy Mawn Garddwriaeth Cymru Dydd Llun 25 Medi**



Cyfarfu Llywodraeth Cymru â thyfwyr a'r gadwyn gyflenwi, wrth iddynt geisio gweithio ar y cyd â'r diwydiant yn y cyfnod cyn Gwaharddiad Mawn 2026. Rhannodd y grŵp syniadau rhagweithiol a thrafod heriau a materion yr oeddent wedi'u hwynebu, a gofynnwyd i'r grŵp ystyried y Cynllun Cyrchu Cyfrifol . Gellir gwneud unrhyw ymholiadau yma: ClimateChangeAndAgriculture@llyw.cymru

**Sglodion Pren Ramial**



Mae gennym daflen ffeithiau newydd ar sglodion pren ramial (RCW). Fe'i cynhyrchir o ganghennau ifanc, ffres, a ystyrir fel y rhai mwyaf cyfoethog o ran maeth o'u cymharu â mathau eraill o wastraff pren. Mae sglodion pren raminal yn ffynhonnell dda o ddadelfennu ar gyfer ffyngau Basidiomycetau. Mae'r ffyngau hyn yn rhyddhau maethynnau sydd o fudd i gydrannau eraill o ficrobiom y pridd, ac felly'n gwella iechyd cyffredinol y pridd.

## Awgrymiadau da ar gyfer eich rhwydweithiau nawr

### Canolbwyntiwch ar … Arallgyfeirio ar ffermydd.



**Galwad i weithredu** os ydych yn ystyried arallgyfeirio ymunwch â'n rhwydwaith twristiaeth garddwriaethol. Gallwch gael awgrymiadau da i lywio tymor y Nadolig yma.

### Ydych chi wedi clywed am ein Rhwydweithiau eraill?



Mae rhwydweithiau yn gyfle gwych i gael cyngor penodol, cael y wybodaeth ddiweddaraf, cyfarfod â thyfwyr eraill, a chael hyfforddiant manwl. Er enghraifft, mae llawer o'n Rhwydweithiau wedi cael **sesiynau grŵp ar farchnata digidol pwrpasol** a **chymorth busnes un i un.** Gallwch ymuno â chymaint o Rwydweithiau ag rydych yn dymuno, cliciwch yma .

## Beth sydd ymlaen?



Roedd ein digwyddiadau diweddar 'Cyflwyniad i hanfodion rheoli perllan' ddydd Mawrth 21 Tachwedd ac 'Ystyried tyfu llysiau ar raddfa cae' ar 16 Tachwedd 2023 i gyd yn llawn ac wedi cael derbyniad da iawn, ond peidiwch â phoeni, mae gennym lawer mwy o ymweliadau â safle gwych a digwyddiadau wedi'u cynllunio.

Peidiwch â cholli cyfle a chofrestrwch ar gyfer mwy o ddigwyddiadau yma heddiw.

## Cymorth Grant



Mae dyddiadau'r **Cynllun Datblygu Garddwriaeth** wedi'u rhyddhau: fe agorodd ar 6 Tachwedd 2023 a bydd yn cau ar 12 Ionawr 2024. Mae'r Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol hefyd yn agor ac yn cau ar yr un dyddiadau.

Nodwch y dyddiadau ar gyfer cynlluniau gwledig. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol, neu ni ar **horticulture@lantra.co.uk** am gyngor.

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid gwneud pob cais i ddefnyddio cemegau amddiffyn cnydau yn unol ag argymhellion y label, a dylid ymgynghori â nhw cyn chwistrellu. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw'r defnydd o'r plaladdwr ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar-label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar

unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor ar gael dros e-bost/ffôn hefyd. Nid ydym yn sicrhau, yn cymeradwyo, yn gwarantu nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.